Cynllunio Gwastraff yng Nghymru
Taflen Ffeithiau 3

Mae Cynllunio ar gyfer Gwastraff yn hanfodol i sicrhau bod safleoedd priodol yn cael eu nodi, a bod cyfleusterau'n cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith yn ôl safonau priodol.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn canolbwyntio ar Gynllunio Gwastraff yng Nghymru – polisïau cynllunio, gweithio rhanbarthol a gwneud penderfyniadau'n benodol.

Prif ystyriaeth gwaith cynllunio gwastraff ar hyn o bryd yw **cynllunio ar gyfer cyfleusterau newydd**

Mae'r fframwaith cynllunio'n gwneud ystyried y dogfennau canlynol yn ofynnol cyn y gellir gwneud penderfyniad. Gellir eu rhannu'n wahanol lefelau strategol:

Lefel Ewropeaidd

Mae'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff,** ac yn enwedig erthyglau 5 a 7, o ddiddordeb penodol i waith cynllunio gwastraff yng Nghymru.

Mae erthygl 5 yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu rhwydwaith integredig ac addas o gyfleusterau rheoli gwastraff. Mae'n rhaid i aelod-wladwriaethau gynhyrchu cynlluniau rheoli gwastraff i ddangos eu galluoedd i gael gwared ar eu gwastraff eu hunain yn effeithiol.

Y prif amcan yw sicrhau y lleolir y cyfleuster gwastraff neu driniaeth mor agos i darddiad y gwastraff â phosibl.

Mae erthygl 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi safleoedd neu osodiadau gwastraff yn eu cynlluniau rheoli gwastraff.

O dan yr erthygl hon, mae'n rhaid i awdurdodau nodi safleoedd a'r meini prawf ar gyfer dewis y safleoedd hyn, a ystyrir yn briodol ar gyfer datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff.

Mae'r **Gyfarwyddeb Safleoedd Tirlenwi** yn cynnwys gofynion i leihau cyfanswm y gwastraff trefol bioddiraddiadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi, dosbarthu safleoedd tirlenwi yn dri chategori (Anadweithiol, Peryglus a Ddim yn Beryglus), gwahardd mathau penodol o wastraff o safleoedd tirlenwi, trin gwastraff cyn ei anfon i safleoedd tirlenwi a gofynion lleoli safleoedd tirlenwi.

Mae'r gyfarwyddeb hefyd yn cyfeirio at gyfrifoldeb Awdurdodau Lleol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu diwydiannau lleol sy'n gallu defnyddio deunyddiau wedi'u hadennill i gynhyrchu deunyddiau y gellir eu hailgylchu neu gynhyrchion sy'n cynnwys deunydd ailgylchu i fodloni targedau gwastraff bioddiraddiadwy Cymru.

Lefel Genedlaethol

Mae Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru, 'Craff am Wastraff', yn nodi polisïau ar gyfer rheoli gwastraff a thargedau a chamau i'w bodloni. Mae'r prif dargedau a nodwyd ar gyfer gwastraff a'i reoli yng Nghymru'n cynnwys:

- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir gan gyrff cyhoeddus.
- Targedau ailgylchu a chompostio gofynnol ar gyfer pob awdurdod lleol.
- Gwella'r broses o wahanu gwastraff peryglus y cartref.

Mae targedau eilaidd ar gyfer gwastraff yng Nghymru'n cynnwys:

- Sefydlogi a lleihau gwastraff y cartref.
- Annog busnesau i ymuno â'r sector cyhoeddus i greu targedau lleihau gwastraff.
- Peidio ag anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, yn enwedig gwastraff bioddiraddiadwy.
- Lleihau faint o wastraff peryglus a gynhyrchir.
- Ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel lle bo hynny'n bosibl.

Mae **Asesiadau Rheoli Gwastraff Strategol (SWMA),** a gynhyrchir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn darparu llawer o'r data am wastraff i lywio penderfyniadau ar y lefel ranbarthol. Mae SWMAau yn cynnwys setiau data ar

- Wastraff Trefol.
- Gwastraff Peryglus.
- Gwastraff Masnachol a Diwydiannol
- Defnydd Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Trwyddedig cyfredol.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru 2002** yn cyfeirio at ddyletswydd awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu ar gyfer sefydlu rhwydwaith integredig ac addas o osodiadau cael gwared ar wastraff, fel y nodir yng Nghyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Ewrop.

Mae Polisi hefyd yn cyfeirio at ddyletswydd awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod gwastraff yn cael ei adennill neu ei fod yn cael ei waredu heb niweidio'r amgylchedd mewn cydweithrediad ag Asiantaeth yr Amgylchedd,

sy'n gweithredu fel rheoleiddiwr holl gyfleusterau diwydiannol Cymru.

Llun:
Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002)

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau swyddogaeth statudol Asiantaeth yr Amgylched o ran rheoli a rheoleiddio gwastraff a chaglu data ar gynhyrchu a rheoli gwastraff. Nodir bod gan yr asiantaeth swyddogaeth statudol yn y gwaith o 'gynllunio datblygiad ar gyfer rheoli gwastraff trwy ymgynghori ar gynlluniau unigol ac fel ymgyngoreion i geisiadau cynllunio penodol'.

Mae **Nodyn Cyngor Technegol 21 (TAN21),** sy'n cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru, yn disgrifio'r dull gofynnol o gynllunio gwastraff yng Nghymru yn llawer fwy manwl.

Mae TAN21 yn cydnabod nad yw'r system gynllunio wedi'i dylunio i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer rheoli gwastraff llwyr yn effeithiol. Y sector preifat ac awdurdodau lleol sy'n sicrhau rheoli gwastraff llwyr trwy eu strategaethau rheoli gwastraff a chontractau gwastraff trefol. Fodd bynnag, mae gan y system gynllunio swyddogaeth hollbwysig i'w chyflawni wrth benderfynu ar safleoedd, graddfeydd ac amodau gweithredu addas ar gyfer y seilwaith hwn pan fyddant yn darparu eu dogfennau cynllunio lleol ac wrth ymateb i geisiadau cynllunio penodol.

Lefel Ranbarthol

Asesu Gwastraff Rhanbarthol (RWA) yw'r cam cyntaf wrth ddatblygu Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Mae angen ei ystyried ar wahân yr un fath wrth wneud penderfyniad cynllunio. Tri phrif nod RWA yw:

- Nodi cyd-destun Rhanbarthol y Cynllun.
- Cynorthwyo i lunio dewisiadau rheoli gwastraff a'u rhoi ar waith.
- Monitro'r perfformiad o ran bodloni'r targedau penodol a nodwyd yn y Strategaeth Wastraff Genedlaethol.

Cytundeb gwirfoddol ar y cyd rhwng awdurdodau lleol yw **Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol (RWP)**. Mae'r RWP yn sicrhau y gall awdurdodau lleol gymryd trosolwg strategol o'u hymrwymiadau rheoli gwastraff ar lefel ranbarthol. Mae elfennau allweddol yr RWP yn cynnwys:

- Cytuno ar ddosraniad cyfleusterau i awdurdodau lleol. Bydd ALl yn penderfynu ar leoliadau ac yn gwneud darpariaethau yn eu Cynlluniau Datblygu Unedol, a bydd yr RWPau yn nodi pa fath o leoliadau, eu gallu a'u lleoliad yn fras.
- Nodi ardaloedd neu fathau o leoliadau ar gyfer cyfleusterau yn y dyfodol.

Mae'r RWPau yn cynnig datganiad o'r ffordd y byddant yn cyfrannu at amcanion rheoli gwastraff cyffredinol y Gyfarwyddeb Safleoedd Tirlenwi a'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol.



Map: *Ardaloedd Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Cymru*

Mae'r RWPau wrthi'n cael eu hadolygu yng Nghymru, a disgwylir ymgynghoriad yn eu cylch yn ystod 2007.

Lefel Leol

Mae **Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU)** yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gwneud darpariaethau addas i ddatblygu'r seilwaith newydd sydd ei hangen i ddarparu'r targedau a nodir yn y Strategaeth Wastraff Genedlaethol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu disodli bellach gan Gynlluniau Datblygu Lleol a fydd yn cyflawni'r un swyddogaeth â'r CDUau wrth gynllunio gwastraff dan y gyfundrefn gynllunio newydd sy'n cael ei chyflwyno yng Nghymru.

Mae **Cynlluniau Rheoli Gwastraff Trefol (MWMP)** a gynhyrchir gan bob awdurdod lleol, yn cyflwyno cynllun yr awdurdodau i reoli'r gwastraff maen nhw'n ei gasglu a bodloni'r targedau gwastraff trefol a nodir yn y Strategaeth Wastraff Genedlaethol.

Cysondeb wrth Wneud Penderfyniadau

Mae'r diagram canlynol yn dangos y berthynas rhwng y dogfennau cynllunio (a strategaeth) manwl a'r fframwaith cynllunio cyffredinol. Cynhelir tryloywder trwy gydol y broses, o'r lefel Ewropeaidd i'r lefel leol, gan sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau am gynllunio gwastraff.



Diagram: *Fframwaith Cynllunio ar gyfer Gwneud Penderfyniadau*

Gofynion ar gyfer Gwneud Penderfyniadau

Mae angen gwneud y canlynol wrth asesu unrhyw gais cynllunio gwastraff:

- Cynnwys Asesiad Effaith Amgylcheddol os yw'r prosiect ar y rhestr ddiffiniedig o ddatblygiadau sef 'Atodlen 1' Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) 1999.
- Ystyried Barn ar Arferion Amgylcheddol Gorau wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff penodol.
- Ystyried effeithiau posibl penderfyniadau cynllunio ynghylch unrhyw ddatblygiad penodol ar iechyd.
- Cydymffurfio â chyfyngiadau amrywiol o ran gollyngiadau, safonau ansawdd amgylcheddol a rheolaethau eraill a gynlluniwyd i amddiffyn yr amgylchedd ac iechyd pobl.
- Cyfleusterau rheoli gwastraff yn defnyddio'r Dechneg Orau Ar Gael (BAT) i sicrhau y dewisir y dechneg orau sydd ar gael i sicrhau amddiffyniad lefel uchel i'r amgylchedd cyfan.
- Sicrhau bod hyblygrwydd wedi'i integreiddio i'r gwaith o reoli gwastraff neu safleoedd penodol i ymdopi â newidiadau i ddeddfwriaeth, targedau a materion sy'n codi o ran rheoli gwastraff yn y dyfodol.
- Mae'n rhaid cynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus i ystyried barn pobl leol am y safle a'r cyfleuster dan sylw.

Crynodeb

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n defnyddio dull a arweinir gan gynllun i ddarparu ei waith rheoli gwastraff ac mae wedi cymryd camau i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Unedol yn nodi anghenion y dyfodol a sut y byddant yn cael eu diwallu, trwy ddyrannu safleoedd a nodi meini prawf ar gyfer dewis safleoedd.

Mae cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwastraff newydd a rheoli gwastraff yn amlwg yn broses gwneud penderfyniadau integredig gan ddefnyddio canllawiau a luniwyd ar lefelau Ewropeaidd, Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.

Mae cynllunio'n system hefyd lle gall cymunedau a rhanddeiliaid lleol roi eu barn am ddefnydd priodol o dir a gallant effeithio ar faint, lleoliad a sut y gweithreda'r cyfleusterau hyn drwy'r system.

recycle for Wales ailgylchu dros Gymru www.wasteawarenesswales.org.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Environment Agency Wales

WLGA · CLILC

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Am ragor o wybodaeth ewch i:
www.craffamwastraff.org.uk